
Canllawiau ar Gyfleusterau Adnabod y Galwr

Datganiad ar ddiwygio'r canllawiau ar gyfer darparu cyfleusterau Adnabod y Galwr

Gan gynnwys addasiad i'r Cynllun Rhifau Ffôn Cenedlaethol

DATGANIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 26 Ebrill 2018

Gair am y ddogfen hon

Mae data Adnabod y Galwr yn cynnwys rhif sy'n adnabod y galwr a nod preifatrwydd, sy'n dynodi a oes modd rhannu'r rhif â'r sawl sy'n derbyn yr alwad. Mae'n gallu rhoi gwybodaeth i'r derbynnydd am y sawl sy'n gwneud yr alwad honno. Mae modd defnyddio data Adnabod y Galwr hefyd ar gyfer swyddogaethau eraill, fel olrhain galwadau i ddod o hyd i ffynonellau galwadau niwsans neu er mwyn helpu i adnabod lleoliad y sawl sy'n ffonio mewn argyfwng. Mae'n rhaid i'r data Adnabod y Galwr fod yn gywir er mwyn i hyn weithio'n effeithiol.

Yn ystod hydref 2017, roedden ni wedi cyflwyno Amod Cyffredinol C6 newydd sy'n rhoi dyletswyddau ar Ddarparwyr Cyfathrebiadau i ddarparu cyfleusterau Adnabod y Galwr, gan sicrhau bod y data Adnabod y Galwr sy'n cael ei ddarparu gyda galwad yn cynnwys rhif ffôn dilys mae modd ei ddeialu sy'n gallu dangos yn union pwy ydy'r sawl sy'n ffonio. Roedden ni hefyd wedi cyhoeddi ymgynghoriad ynghylch y newidiadau i'r canllawiau Adnabod y Galwr i adlewyrchu'r gofynion newydd yn yr Amod Cyffredinol.

Yn dilyn yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, rydyn ni wedi diweddarau'r canllawiau ar gyfleusterau Adnabod y Galwr. Mae'r ddogfen canllawiau sydd wedi cael ei diweddarau yn egluro'r diffiniad o Adnabod y Galwr dilys ac mae modd ei ddeialu ar gyfer darparwyr cyfathrebiadau mewn gwahanol rannau o alwad ffôn, ar sail yr hyn sy'n dechnegol bosibl heddiw. Mae'r darparwyr tarddu'n gyfrifol am sicrhau bod Data Adnabod y Galwr cywir yn cael ei ddarparu gyda galwad. Mae disgwyl i ddarparwyr trawsgludo a therfynu wirio bod y rhif sy'n cael ei ddarparu gyda'r alwad yn dod o ystod ddilys o rifau. Ar gyfer galwadau sy'n tarddu ar rwydwaith y tu allan i gwmpas y gofynion hyn, y darparwr cyfathrebiadau ar y pwynt mynediad cyntaf sy'n gyfrifol am sicrhau bod gan yr alwad Ddata Adnabod y Galwr dilys, gan ddisodli'r wybodaeth gyda rhif sydd wedi cael ei ddyrannu iddyn nhw at y diben hwn pan na fydd y rhif gwreiddiol yn ddilys neu ar goll. Mae'r canllawiau sydd wedi'u diweddarau hefyd yn egluro'r opsiynau sydd ar gael i ddarparwyr cyfathrebiadau i rwystro galwadau sydd ag Adnabod y Galwr annilys neu nad oes modd ei ddeialu rhag cysylltu â'r defnyddiwr terfynol.

Er mwyn cefnogi'r argymhellion hyn, rydyn ni wedi gwneud rhifau yn yr ystod 08979 ar gael i'w dyrannu i ddarparwyr cyfathrebiadau i'w defnyddio fel Rhifau Rhwydwaith wedi'u mewnosod pan nad oes rhif yn bresennol neu os ydyn nhw'n amau nad ydy'r Adnabod y Galwr sy'n dod i mewn yn ddibynadwy.

Bydd y canllawiau diwygiedig yn berthnasol o 1 Hydref 2018 ymlaen, yr un dyddiad â phan ddaw'r Amod Cyffredinol newydd i rym.

Cynnwys

Adran

Crynodeb Gweithredol

1-2

1. Crynodeb

- 1.1 Mae cyfleusterau Adnabod y Galwr yn rhoi gwybodaeth i'r derbynnydd galwad ffôn am y sawl sy'n gwneud yr alwad. Mae data Adnabod y Galwr yn cynnwys rhif sy'n adnabod y galwr a nod preifatrwydd, sy'n dynodi a oes modd rhannu'r rhif hwinnw â'r sawl sy'n derbyn yr alwad. Mae cyflwyno data Adnabod y Galwr yn golygu bod modd i'r derbynnydd wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth am alwadau sy'n dod i mewn, ond mae hyn hefyd yn dibynnu ar gael data Adnabod y Galwr cywir.
- 1.2 Ym mis Medi 2017, roedd Ofcom wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar ddiwygiadau i'r canllawiau Adnabod y Galwr, gan nodi sut dylai darparwyr cyfathrebiadau ddelio â data Adnabod y Galwr i sicrhau mai dim ond Adnabod y Galwr dilys, mae modd ei ddeialu sy'n adnabod y galwr yn unigryw sy'n cael ei gyflwyno i dderbynnydd yr alwad. Roedd hyn yn dilyn newidiadau i'n Hamodau Cyffredinol, a oedd yn cyflwyno gofynion newydd ar gyfer Cyfleusterau Adnabod y Galwr, a ddaw i rym ar 1 Hydref 2018,
- 1.3 Mae'r canllawiau'n angenrheidiol gan fod cludo Data Adnabod y Galwr yn aml yn dibynnu ar gydweithrediad rhwng dau weithredwr rhwydwaith neu fwy. Er mwyn sicrhau bod y Data Adnabod y Galwr yn cael ei gyfleu yn gyson rhwng y rhwydweithiau mae angen cael dealltwriaeth gyffredin rhwng Darparwyr Cyfathrebiadau ynghylch fformat yr wybodaeth a sut caiff yr wybodaeth hon ei chyfnewid rhwng rhwydweithiau.
- 1.4 Yn dilyn ymatebion gan 16 o randdeiliaid, rydyn ni wedi diweddarau'r canllawiau Adnabod y Galwr. Mae'r canllawiau sydd wedi'u diweddarau yn egluro ystyr Adnabod y Galwr dilys ac mae modd ei ddeialu ar gyfer darparwyr sy'n tarddu, sy'n trawsgludo ac sy'n terfynu, o ran y galluoedd technegol sydd ar gael heddiw. Mae'r canllawiau'n nodi:
- Y darparwr tarddu sy'n gyfrifol am sicrhau bod Data Adnabod y Galwr cywir yn cael ei ddarparu gyda galwad.
 - Y gofynion gwahanol ar gyfer Rhifau Rhwydwaith a Rhifau Cyflwyno.
 - Y profion y dylai darparwyr trawsgludo a/neu derfynu eu gwneud i wirio a ydy'r rhif yn dod o ystod ddilys o rifau.
 - Cyfrifoldeb y darparwr cyfathrebiadau yn y pwynt mynediad cyntaf, ar gyfer galwadau sy'n tarddu ar rwydwaith y tu allan i gwmpas y gofynion hyn. Pan fydd y darparwr cyfathrebiadau yn amau nad ydy'r Data Adnabod y Galwr yn ddilys neu lle nad oes Data Adnabod y Galwr, dylen nhw ddisodli'r wybodaeth â rhif sydd wedi cael ei ddyrannu iddyn nhw at y diben hwn.
 - Yr opsiynau sydd ar gael i ddarparwyr cyfathrebiadau i rwystro galwadau sydd ag Adnabod y Galwr annilys neu nad oes modd ei ddeialu rhag cysylltu â'r defnyddiwr terfynol.
- 1.5 Rydyn ni wedi gwneud rhifau yn yr ystod 08979 ar gael i'w dyrannu i ddarparwyr cyfathrebiadau i'w defnyddio fel Rhifau Rhwydwaith wedi'u mewnosod pan nad oes rhif yn bresennol neu os ydyn nhw'n amau nad ydy'r Adnabod y Galwr sy'n dod i mewn yn ddibynadwy. Ni ddylid dangos y rhifau hyn i dderbynnydd yr alwad. Serch hynny, yn lle mynnu bod darparwyr cyfathrebiadau yn rhoi cyhoeddiad eglurhaol heb ffi ar unrhyw

alwadau i'r rhif hwn, fel roedden ni wedi'i gynnig yn yr ymgynghoriad, rydyn ni wedi penderfynu cyhoeddi'r rhestr o rifau wedi'u dyrannu a gofyn i ddarparwyr cyfathrebiadau helpu eu cwsmeriaid gydag unrhyw ymholiadau sydd ganddyn nhw am alwadau sy'n dangos Adnabod y Galwr gyda rhif 08979.

- 1.6 Ochr yn ochr â'r ddogfen hon, rydyn ni hefyd yn cyhoeddi ymgynghoriad sy'n cynnwys diwygiad i Amod Cyffredinol C6 i'w gwneud hi'n glir bod galwadau i'r gwasanaethau brys wedi'u heithrio o'r rheolau hyn ac na ddylid eu rhwystro byth.
- 1.7 Bydd yr Amodau Cyffredinol newydd, gan gynnwys Amod Cyffredinol C6, yn dod i rym ar 1 Hydref 2018, ac ar yr adeg honno hefyd bydd y canllawiau diwygiedig ar gyfleusterau Adnabod y Galwr hefyd yn berthnasol. Serch hynny, wrth ystyried a ddylid cymryd camau gorfodi yn erbyn Amod Cyffredinol C6, pan na fydd darparwr cyfathrebiadau wedi gallu gwneud y newidiadau perthnasol erbyn y dyddiad gweithredu, pan fo'n briodol, byddwn yn ystyried cynlluniau'r darparwr cyfathrebiadau i wneud y newidiadau hyn. Dylai'r cynlluniau hyn gynnwys amserlen glir ar gyfer gweithredu.